**Yma o hyd**

Wyt ti'm yn cofio Miss Griffiths
Does neb yn y byd fel hi
Arwain y corau a'r 'Steddfod
A phopeth er ein mwyn ni
Mae hi'n ddoniol, yn weithgar, yn hapus
Ac yn brwydro yn gryf dros ein hiaith
Yn caru Cwmbrân a Chymreictod
Mae'n ein gadael, ond ar ôl mae ei chraith

Pob lwc am eich taith
Pob lwc am eich taith
Bydd pawb yn eich cofio
Bydd pawb yn eich cofio
Bydd pawb yn eich cofio,
Byddwch yma o hyd

Diolch i Mr Bridson
Am eich jôcs gwael a'r holl hwyl
Pob tro ni'n chwarae rownderi
A capture the flag 'rôl egwyl
Lemon mae'n galw 'r holl blantos
Ond fe yw y lemon go iawn
Mae'n gadael ei farc ar ein hysgol
A gadael ein c'lonnau yn llawn.

Pob lwc am eich taith
Pob lwc am eich taith
Bydd pawb yn eich cofio
Bydd pawb yn eich cofio
Bydd pawb yn eich cofio,
Byddwch yma o hyd

Diolch yn fawr i Miss Stockman
Bydd neb yn d' anghofio di
Yn nwy fil ac wyth y dechreuaist
Llawn o atgofion di-ri
A nawr, rwyt ti yn gadael
Ac yn mynd i fyw ger y môr
Diolch am bopeth y gwnaethost
Gwaeddwn i gyd fel un côr.

Pob lwc am eich taith
Pob lwc am eich taith
Bydd pawb yn eich cofio
Bydd pawb yn eich cofio
Bydd pawb yn eich cofio,
Byddwch yma o hyd